DWY O GERDDI DUWIOL.

Can dduwiol, ar, Gwel yr Adeiliad; *o Waith* EDWARD JONES, *o* Ben y Ball, *Ymlhwy* Treffynnon.

CYD liniwn mewn Llawenydd,
Oreuglod Fawl i'r Arglwydd,
Trwy burfydd perfeth;
Gweddiad pawb yn ddiau
Ar iddo fadde i Beiau,
Au Nwyde anodieth:
Duw Tâd pûr hyfryd, a'r Mâb rhâd,
A'r Yſpryd ſanctedd o'i fawr Drugaredd,
A'n dycco o'r Diwedd yw anedd loywedd
Na ddigia wrth dy Ddynion, [Wlâd;
Y netol dirion Dâd:
Mae yn drwm dy Ddyrnod fel y Plwm,
Y lle diſgynno bydd gwae yr fan honno,
A phawb ſydd ynddo tan Bechod pennod pwn,
Yn byw mewn hyll Anwiredd,
Gan Ddialedd tôſt, mi wn.
Tra bo'n ni yn ein Iechyd,
Mae yr Galon am y Golud,
Ynfyd anferth;
A'r 'Wyllys efo yr Gallu,
A'r Bwriad yn eu berwi,
Yn llawn Barieth;
Am y Bŷd a'i ſothach faſnach fûd,

Mae

Mae Chwantau Dynion yn ddygun ddigon,
I fynd yn fawrion Wŷr beilchion cledion clŷd,
Heb unwaith sôn am farw ond am eu Helw o
Er cael Cynghorion mwynion mael, [hŷd,
I aktro eu Buchedd,
Cyn dyfod Dialedd,
Ag oer Anhunedd am Gamwedd yn ddi ffael,
I ymwrthod au Pleserau,
Tegane gweiniad gwael.
Mae yrwan amrhyw Ddynion,
Yn dilin Llwybre ceimion,
Sy yn llawn Camwedd,
Gan dorri'r glân Orchmynnion,
A throi yn gau Athrawon,
Gweigion gwagedd:
Fe ddaw rhyw Ddiwrnod prûddder braw,
O Rynn ag Anwyd ag oer synn Arswyd,
I'r rhai cybyddlyd au Sectie bregus baw,
Fel Geifr au Anhawddgarwch,
Fe'u troir i Driftweh draw;
Heb Gêl mae yn siccred in'ar Sel daw Dialedd
Am Anufudddod a dygyn Drallod, [hynod,
Gwae yr Galon fyth ai gwêl,
A fyddo yn llawn o Fryche,
Yn ddiau pan y ddêl.
Mae Crist yn dweud i hunan,
Mae i Eirie goleu gwiwlan
O, yma gwelwch;
Fod Balchder gwedi ein llenwi,
A'n suddo i droseddu,
Rhag haeddu'r Heddwch:
Er cael Cynghorion Iesu hael,
Au clywed beunydd yn yr Eglwysydd,
Gan lân Pregethwŷr Agorwŷr mwyn y Gair,

Ni

Ni feder Cybydd chwannog ond dal yn donnog daer,
Mae yn byw rhai Dynion,
O bôb rhyw rai Yſbeilwŷr digllon,
A rhai yn Llofryddion, gan dorri yn greulon,
Orchmynnion doethion Duw ;
A phawb yn gwaſcu yr Gweinion,
Rhai llymmion gwael eu Lliw.
Mae Natur Dynion diffeth,
I garu yr Bŷd ai Gyweth,
Anferth ynfyd ;
Gan roddi eu Serch anhirion,
Au holl Feddylie eu Calon,
Am ei Golud :
Ag fyth tra bo yn eu Gene Chwyth,
Ni chân nhw ddigon yw gwneud yn fodlon,
O Dryſor Mammon dda dirion yn ddi driſt,
A'r rhain ſydd hên Gaſeion,
Elynion creulon Criſt,
A'r gwan na thyccia yr Bŷd yw rhan,
Ceiff i ddiyſtyru ai lwyr amherchu,
Ond eill dalu, Wr mwŷngu, yn y man,
Ai Gyfri yn ynfyd ffiedd,
Di Rinwedd, Duw yn ei ran.
Wel byddwn bawb yn bwyllog,
Arferwn lân Gydwybod,
Hynod heini ;
A gwiſgwch Gariad perffeth,
Trowch heibio bôb Gelynieth,
Fel Plant Goleuni : [rhydedd,
Ar Balch ſydd heddyw ar Farch yn fawr An-
Rhaid iddo ymadel er maint ei Bower,
Fe a dderfydd am ei Barch
Yr Awr yr elo i orwedd,
Ar oer wag Erchwyn Arch :

Ein

Ein Pen a'n prynnodd ar y Pren,
A'n dyco yn gyfan o Rwyde Satan,
I'r nefol *Ganaan*, berffeithlan wiwlan wen,
I blith dy nefol Seintie,
Trwy bur Ammode, *Amen*.

EDWARD JONES, *a'i cant.*

CERDD TRA RHAGOROL

A ELWIR,

Yſtori'r Crys Gwaedlyd.

Y Cwmni cariadus glan dawnus a da,
Mi draetha i chwi yſtori os cennad a ga,
Y modd y darllenais mae'r hanes yn hir,
Os byddwch mor fwyned cewch glywed y gwir.
Yn Rhufen roedd Emprwr rheolwr mawrhad,
Yn llawn trugarogrwydd dda lywydd iw wlad,
Ac un ferch brydweddol dda reol ddewr rol,
A dyna'r Fun gryno oedd i reinio ar ei ol.
Pan fyrthiodd llywodraeth mawr helaeth i hon,
Yr oedd mor gariadus gwawr bur-lwys ei bron,
A phawb oedd mewn cariad a'r leuad aur liw,
Gan laned Bun weddus ran dawnus waith Duw.
Rhyw Iarll o'r gymdogaeth trwy wenaith di ferch
Fel bradwr a'i hudodd gwan ydoedd y Ferch,

I halogi diweirdeb, i odineb nid da,
A digio ei ffryns ffyddlon wnai'r hinon liw'r ha.
Ac yno'r diffeithwr hen rwydwr di rad,
A yrrai'r Fun reiol (nid gweddol) o'i gwlad,
Ond oedd hyn reſynus anfoddus i'r Fun,
Cymmerai yno feddiant (am haeddiant ei hun.)
A'r Empres brydweddol hoff reiol o ryw,
Oedd ddigon truenus anfoddus i fyw,
Yn llawn o bob triſtwch anharddwch oedd hyn,
Yn ddigon di ymadferth o ſyweth yn ſynn.
Mewn galar a gofid anhyfryd roedd hi,
Heb neb alle 'i hamddiffin lliw ewyn y lli,
Ond wylo 'n llawn alaeth fel dieithr ar dwyn,
Yn ddigon di yſtyr heb gyſur na chwyn.
Eiſte wnae i orphwys, bun wiwlys i lawr,
Fel y digwyddodd ar fin y ffordd fawr,
Mewn gofid digymmar a galar roedd gwen,
Yn llawn o bob lludded a'i llaw dan ei phen.
Rhyw Farchog urddaſol hoff reiol a ffraeth,
Hebio'r Wawr gynnes ſwyn ddynes a ddaeth,
Wrth weld y winwydden yn llefen yn lli,
Fe oſynnai'r achoſion o'i chwynion a'i chri.
O'i weled mor weddus wr moddus a mwyn,
Hi a draethai iddo ei hanes a'i chyffes a'i chwyn,
Yr wyfi i'n ferch Empiwr rheolwr mawr hael,
Yrwan mewn triſtwch chwi welwch mor wael.
Fi biodd llywodraeth mewn gyfoeth a gwlad,
Yr harddwch a'r hurddas yn nheyrnas fy Nhad;
Nes i'm pechodau rwi'n adde fy mai,
Ddwyn arnai o'r diwedd oer ddialedd di drai.
Rhyw Iarll a'i ymadrodd am gyrrodd mor gaeth,
A thrwy ei hydoliaeth ai weniaeth fe wnaeth,
I mi gyd-orwedd, 'rwyf yn ffiaidd goffau,
Y weithred anoethedd, a wnaethom ni ein dau.

Pan

Pan gadd ei ddymuniad fel lleiddiad yn llwyr,
Y bradwr anffyddlon mae digon a'i gwyr,
I minnau yn oleu yn elyn fe 'mrodd,
Ac allan o'm meddiant fel Tyrant fe'm trodd.
Pan glybu y Marchog trugarog y gwir,
A'i gweled mor glaerwen hardd ſeren pob ſir,
Fe ofynnai i'r Wawr ſyber Fun dyner ar dwyn,
Beth a roi lliw'r eira mi ſentra er dy fwyn.
Ni feddai mo'r rhoddion na moddion na mael,
Nid allai gyrhaeddyd y golud na'i gael,
Ond hyn a ſynega yn gyſa dan go,
Fy un gorph fy hunnan yn rhwyddlan mi rho.
Fel dyna nymuniad hardd leuad o liw,
Os byddi bur i mi, tra byddech di bywy,
A'th gadw dy hunan yn burlan bob awr,
A ffieiddio dy ffoledd, bun gwyredd ei gwawr.
Yn ſuan mi ſentra, ni riſia inneu'r un,
Er cryſed, er gwched, er llonned ſo ei llun,
Drwy gennad Duw'n benna ni byddai tra hir,
Nes ymlid dan warant y Teirant o'r tir.
Os collai yn y rhyſel fy hoedel, fun hu,
Rhaid i ti yn weddw ymgadw gwawr gu;
Na'mrwymech di er pleſer, hardd dyner ar dwyn,
Ond cofio'r fun hoyw, i mi farw er dy fwyn.
Rhaid i ti dracheſn ail Helen fwyn hael,
Gadw Nghrys Gwaedlyd un ffunud heb ffael,
A'i roddi yn dy ſiambar, gwawr hawddgar ei gwedd,
I'm cofio bob munud o'th tywyd i'th fedd.
Hynny a gyflawna ni ffaelia fy ffydd,
Trwy'ch cofio'n gariadus, modd dawnus bob dydd,
Fy ammod a gadwa ffieiddia waith ffol,
Neb arall ni charai, ni cheiſia'i ar eich ol.
Pan glybu efe addewid yr hyfryd Wawr hu,
Fe ſentrai'n galonnog y cefnog wr cu,

A'r

A'r Iarll pan ymlidiai os gyrrai o'i gwlad,
Doi yn ol a'r Fun gwyraidd naws dofaidd iw ſtad.
Ac yno wrth fentro i ſafio'r lliw'r ton,
Fe gafodd o'i chariad oer frathiad iw fron,
A'i grys pan ddioſcodd danfonodd i'r Fun,
A bu farw ar fyr enyd wr hyfryd ei hun.
Pan welodd hi'r anrheg gu freudeg o fri,
Ni allodd Fun glaerwen ond llefain yn lli,
A thywallt ochneidiau a dorrai y dur,
Trwm ydoedd ei chyſtud, ei cherydd a'i chur.
Cyn nemor o ddyddiau rhai fynnai i'r Fun gall,
A phawb iw chynghori i briodi yn ddi ball,
Mewn galar iw ſiambar hi redai ar frys,
Gan ddwedyd ni fynnei, ni charei, ond ei Chrys.
Er maint y cynhygion mawr gwychion eu gwedd,
Ni charodd ni cheiſiodd ni fynnodd hyd fedd,
Ni thorrodd mo'i hammod, gwawr hunod dda ei bri,
Ond cadw ei orchymynion y tirion Dduw tri.
Dyma'r yſtori y cwm'ni mwyn cu,
Fel yr addewais yr hanes yn hy,
Yr awron yn amlwg er tolwg gwrandewch,
Deongliad a meddwl y cwbl a gewch.
Duw r Tad ydyw'r Emprwr, rheolwr mawr hy,
A'r enaid yw'r Aeres, a'r gynnes ferch gu;
A'r hyfryd lyfodraeth hir doreth hardd dêg,
Ydyw Paradwys dda fawr lwys ddifreg.
A'r twyllwr geſynnol anſiriol ddi-ſerch.
A hudodd drwy weniaeth oer fariaeth y ferch,
Ein gelyn yſprydol, rhy fradol ydi fryd,
Yw'r Iarll a'n trôdd allan o'r berllan i'r Byd.
Criſt Jeſu yw'r Marchog galluog pob lle,
A ddaeth yn ymwared dda ei nodded o'r ne,
Ei Fywyd a gollodd ni ffaeliodd ei ffydd,
Cofiwn yr yſtori, a'n rhoddi a wnai'n rhydd,

Os

Os temtia'r byd barus anafus nyni,
I ddilyn oferedd mawr rhyfedd eu rhi,
Awn at y Crys Gwaedlyd un ffunud trwy ffydd,
Ac i ni'n garedig dda feddyg fe fydd.
Gwrthnebwn ein chwantau a'n beiau bob awr,
A churwn yn ufudd y llofrudd i'r llawr,
Na fyddwn war galed fel ffylied rhy ffol,
Fe'n dwg i'r wlad reiol Dduw nefol yn ol.

Thomas Davies, Sir Drefaldwyn, ai Cant.

TERFYN.